Cyngor **Abertawe**
Swansea Council

Taliadau Uniongyrchol ar gyfer Lwfans Tai Lleol
I'w chwblhau gan y landlord

This form is available in English from the Civic Centre

Mae'r ffurflen hon hefyd ar gael mewn print bras o'r Ganolfan Ddinesig

Adran y Gwasanaethau Ariannol
Canolfan Ddinesig
Heol Ystumllwynarth
Abertawe
SA1 3SN
www.abertawe.gov.uk
01792 635353

Fel arfer, telir Lwfans Tai Lleol (LTLl) yn uniongyrchol i'ch tenant.
Mewn achosion arbennig, efallai bydd modd i ni dalu'r LTLl yn uniongyrchol i chi. Cwblhewch y ffurflen hon os hoffech i ni ystyried eich talu chi.

1. Eich Enw a'ch Cyfeiriad Llawn	AT DDEFNYDD SWYDDFA'N UNIG Y dyddiad y derbyniom y ffurflen hon (stamp)
Enw: _____ Cyfeiriad: _____ _____ _____ Côd Post: _____	
Ffôn: _____ Efallai y bydd angen i ni gysylltu â chi. Bydd yn ein helpu i brosesu'ch cais yn gyflymach os ydych yn rhoi'ch rhif ffôn yn ystod y dydd/rhif ffôn symudol yma.	

2. Enw a Chyfeiriad eich Tenant	Rhif y Cais:
Enw: _____ Cyfeiriad: _____ _____ _____ Côd Post: _____	
Ffôn: _____ Efallai bydd angen i ni gysylltu â'ch tenant. Bydd yn ein helpu i brosesu'ch cais yn gyflymach os ydych yn darparu ei rif ffôn.	

3. Rheswm dros dalu

Ticiwch y blwch neu'r blychau sy'n berthnasol i chi a darparwch y dystiolaeth y gofynnir amdani.

Rheswm dros dalu landlord	**Enghreifftiau o'r dystiolaeth angenrheidiol**
☐ Rwy'n derbyn taliadau gan yr Adran Gwaith a Phensiynau mewn perthynas ag ôl-ddyledion rhent fy nhenant.	Tystiolaeth ysgrifenedig gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.
☐ Mae gan fy nhenant 8 wythnos neu fwy o ôl-ddyledion rhent.	Tystiolaeth ysgrifenedig o ôl-ddyledion.
☐ Mae gan fy nhenant gyflwr meddygol neu broblem iechyd meddwl sy'n ei gwneud hi'n anodd iddo reoli ei arian.	Tystiolaeth ysgrifenedig gan Weithiwr Gofal neu Gefnogi.
☐ Mae gan fy nhenant anawsterau dysgu / anableddau sy'n ei gwneud hi'n anodd iddo reoli ei arian.	Tystiolaeth ysgrifenedig gan Weithiwr Gofal neu Gefnogi.
☐ Mae gan fy nhenant anawsterau difrifol wrth ddarllen ac ysgrifennu neu anawsterau iaith.	Tystiolaeth ysgrifenedig gan Grwpiau Lles neu Weithiwr Cefnogi.

☐ Mae fy nhenant yn dygymod â bod yn gaeth i gyffuriau, alcohol neu gamblo.	Tystiolaeth ysgrifenedig gan Weithiwr Gofal neu Gefnogi.
☐ Mae fy nhenant wedi ffoi rhag trais yn y cartref neu mae ei berthynas wedi chwalu.	Tystiolaeth ysgrifenedig gan Grwpiau Lles neu Weithiwr Cefnogi.
☐ Mae fy nhenant wedi cael ei ryddhau o'r carchar yn ddiweddar.	Tystiolaeth ysgrifenedig gan Swyddog Prawf.
☐ Mae fy nhenant wedi cael profedigaeth yn ddiweddar.	Llythyr oddi wrth ffrindiau neu aelodau o'r teulu gyda thystysgrif marwolaeth.
☐ Mae fy nhenant wedi gadael gofal neu'r ysbyty'n ddiweddar.	Tystiolaeth ysgrifenedig gan yr ysbyty, meddyg teulu neu weithiwr gofal.
☐ Mae gan fy nhenant hanes o ddigartrefedd.	Tystiolaeth ysgrifenedig gan yr Adran Tai, Opsiynau Tai.
☐ Mae gan fy nhenant broblemau dyled difrifol.	Llythyrau oddi wrth gredydwyr, gorchmynion llys.
☐ Mae fy nhenant yn fethdalwr heb ei ryddhau.	Tystiolaeth o ansolfedd.
☐ Nid yw fy nhenant yn gallu agor cyfrif banc.	Llythyrau oddi wrth fanciau neu gynghorwyr arian.
☐ Mae fy nhenant wedi cael problemau o'r blaen wrth dalu ei rent.	Tystiolaeth gan Grwpiau Lles, Opsiynau Tai, hen landlordiaid, Gwasanaethau Cymdeithasol.
☐ Mae fy nhenant yn cael anhawster rheoli ei faterion ariannol.	Tystiolaeth o ôl-ddyledion rhent, biliau cyfleustodau, biliau eraill.
☐ Byddai taliadau uniongyrchol yn cynorthwyo'r tenant i sicrhau neu gadw ei denantiaeth.	Llythyr oddi wrthych sy'n esbonio pam mae hyn yn wir.
☐ Nid yw un o'r problemau uchod yn berthnasol i'm tenant, ond byddai'n anodd iddo gael taliadau LTLl oherwydd:	

4. Defnyddiwch y lle hwn i roi gwybod i ni am unrhyw beth arall yr hoffech i ni ei ystyried.

5. Eich Preifatrwydd - Cyngor Abertawe yw'r rheolwr data ar gyfer yr wybodaeth bersonol rydych chi'n ei darparu ar y ffurflen hon. Defnyddir eich gwybodaeth wrth i ni arfer ein hawdurdod swyddogol ac ni chaiff ei defnyddio at unrhyw ddiben arall. Ni fyddwn yn rhannu'ch data ag unrhyw drydydd parti oni bai fod gofyn i ni neu y caniateir i ni wneud hynny yn ôl gyfraith. Eglurir hyn yn fanylach ar-lein yn www.abertawe.gov.uk/GwybodaethBersonolRefeniwaBudd-daliadau.

Mae cyfraith diogelu data'n disgrifio'r sail gyfreithiol ar gyfer prosesu eich data fel un sy'n angenrheidiol er mwyn cyflawni tasg gyhoeddus. I gael rhagor o wybodaeth am sut mae Cyngor Abertawe yn defnyddio'ch data personol, gan gynnwys eich hawliau fel gwrthrych y data, darllenwch ein Hysbysiad Preifatrwydd Corfforaethol yn www.abertawe.gov.uk/hysbysiadpreifatrwydd.

6. Datganiad Mae'n rhaid i chi lofnodi'r ffurflen hon.

- Rwy'n cytuno i'r is-adran Budd-daliadau gysylltu'n uniongyrchol â'm tenant i drafod y cais hwn.
- Rwy'n deall, er mwyn i mi dderbyn taliadau LTLl uniongyrchol, fod yn rhaid i mi gwblhau'r ffurflen Taliadau Uniongyrchol ar gyfer LTLl atodedig.
- Mae'r wybodaeth a roddwyd yn wir ac yn gywir.

Eich llofnod: _____ Dyddiad: / /

Ffurflen Taliadau Uniongyrchol i'w chwblhau gan y landlord

Nodyn Pwysig i'r Landlord / Asiant

Os ydych am i ni anfon taliadau'n uniongyrchol atoch chi, mae'n rhaid i chi lofnodi a dyddio'r blychau isod er mwyn dangos eich bod yn cytuno i dderbyn y taliadau ac yn deall eich dyletswyddau fel a fanylir isod.

Sylwer nad yw cwblhau'r adran hon yn gwarantu y caiff taliadau eu gwneud i chi.

Os ydych eisoes yn cael taliadau Budd-dal Tai'n uniongyrchol gennym, nodwch rif adnabod eich cyfrif. Mae hwn ar eich atodlen taliadau.

Eich Dyletswyddau

- Rhaid i chi ddweud wrthym am unrhyw newidiadau yn amgylchiadau eich tenant yr ydych yn ymwybodol ohonynt.
- Mae'n rhaid i chi wirio'r eiddo'n rheolaidd o hyd fel y byddech i denant nad yw'n derbyn Budd-dal Tai.
- Os bydd eich tenant yn cael gordaliad Budd-dal Tai ac mae'r awdurdod yn gofyn i chi ad-dalu hwn, mae'n rhaid i chi ei dalu ar gais oni bai'ch bod yn ystyried mai gwall swyddogol oedd yn gyfrifol am y gordaliad a'ch bod wedi anfon llythyr anghydfod ysgrifenedig o fewn mis calendr i gael yr hysbysiad o ordaliad.

Cytundeb y Landlord neu'r Asiant

Enw'r tenant:

Cyfeiriad y tenant:

a) Ydych chi'n berchen ar yr eiddo rydych yn ei rentu i'ch tenant? Nac ydw ☐ Ydw ☐

Os nad ydych, nodwch:

Enw'r perchennog:

Cyfeiriad y perchennog:

Rhif ffôn y perchennog:

b) Ydy'r tenant neu unrhyw aelod o aelwyd y tenant yn perthyn i'r perchennog/landlord neu ei bartner?

Nac ydy ☐ Ydy ☐ Os ydy, rhowch fanylion

c) Ydy'r perchennog/landlord neu ei bartner yn rhiant i unrhyw un o blant dibynnol y tenant?

Nac ydy Ydy

ch) Os ydych chi'n cytuno i dalu i mi y Budd-dal Tai y mae fy nhenant yn gymwys i'w dderbyn, rwy'n cytuno y byddaf, os gofynnwch i mi, yn ad-dalu unrhyw fudd-dal nad yw'n gymwys i'w dderbyn os bydd newid yn ei amgylchiadau.

Byddaf yn dweud wrth Is-adran Budd-daliadau Dinas a Sir Abertawe ar unwaith, yn ysgrifenedig, am unrhyw newid yn amgylchiadau fy nhenant a ddaw i'm sylw.

Deallaf y gallwn gael fy erlyn os nad wyf yn rhoi gwybod am newid mewn amgylchiadau.

Rwyf wedi darllen a deall yr wybodaeth uchod.

*Llofnod y landlord / asiant:

Dyddiad: / /

*Rhif ffôn y landlord / asiant:

*Dilëer fel y bo'n briodol

Os hoffech i ni dalu'ch taliadau'n uniongyrchol i'ch cyfrif banc, cwblhewch y ffurflen BACS i landlordiaid / asiantiaid ar dudalen gefn y ffurflen hon.

CAIS I FUDD-DAL TAI GAEL EI DALU I GYFRIF BANC / GYMDEITHAS ADEILADU LANDLORD (NEU GYFRIF ASIANT LANDLORD) TRWY BACS

Os ydych eisoes yn derbyn taliadau budd-dal ar gyfer tenant(iaid) arall / eraill, byddwn yn talu'r HOLL daliadau i un cyfrif banc. Rhaid i chi roi manylion y cyfrif banc rydych am i'r holl daliadau gael eu talu iddo yn y dyfodol.

Gwnewch daliadau Budd-dal Tai'n uniongyrchol i'm cyfrif Banc / Cymdeithas Adeiladu trwy BACS yn unol â'r manylion isod:

RHOWCH EICH MANYLION ISOD

Enw'r Banc / Gymdeithas Adeiladu:	
Cyfeiriad:	
Côd Post:	
Côd Didoli:	
Rhif y Cyfrif: NB: rhaid cynnwys y **Rhif Cyflogres** ar gyfer cyfrifon cymdeithasau adeiladu	
Enw'r Cyfrif: (er enghraifft Mr J. Jones)	

SYLWER Y BYDD OEDI WRTH DALU TRWY'R DULL HWN OS NA RODDIR YR HOLL FANYLION UCHOD.

BYDD CEISIADAU SYDD HEB EU LLOFNODI'N CAEL EU DYCHWELYD. OS YDYCH YN LLOFNODI AR RAN CWMNI NEU SEFYDLIAD, NODWCH EICH SWYDD.

Llofnod(au):	
Swydd (os yw'n berthnasol)	
Dyddiad:	

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg. Caiff unrhyw ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg ei hateb yn y Gymraeg ac ni fydd hyn yn arwain at oedi.

We welcome correspondence in Welsh. Correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and this will not lead to a delay.